Cyllid &
Thollau EM

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

**Dyddiad**

Annwyl gwsmer,

Rydym yn ysgrifennu atoch oherwydd bod ein cofnodion yn dangos bod eich busnes wedi'i leoli yn y DU a'ch bod wedi mewnforio nwyddau o'r UE yn ystod 2018. Fodd bynnag, nid ydych wedi cofrestru ar gyfer Gweithdrefnau Symlach Dros Dro (TSP) hyd yn hyn, a hynny er mwyn gwneud mewnforio mor syml â phosibl ar ôl Brexit. I'ch helpu i fod yn barod, bydd CThEM yn cofrestru'ch busnes i ddefnyddio TSP o'r dyddiad y mae'r DU yn gadael yr UE.

Eich rhif cofrestru TSP yw:

## Ynglŷn â TSP

Gweithdrefnau mewnforio symlach yw TSP, y gallwch eu defnyddio ar gyfer nwyddau yr ydych yn eu mewnforio o'r UE i'r DU, pe bai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb. Maent yn rhoi amser ychwanegol i chi gyflwyno'ch ffurflenni tollau, a thalu unrhyw dollau mewnforio.

Os nad ydych yn gyfarwydd â phrosesau tollau, ac nid ydych wedi llwyddo i benodi asiant tollau, mae'n debyg mai TSP fydd yr opsiwn gorau i chi. Felly, rydym wedi cymryd y cam cyntaf ac wedi eich cofrestru.

Does dim rhaid i chi ddefnyddio TSP dim ond oherwydd eich bod wedi cofrestru. Gallwch ddefnyddio gweithdrefnau mewnforio llawn yn lle hynny.

## Yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud nawr:

1 Gwiriwch yr wybodaeth am dariffau, a threfnu Debyd Uniongyrchol os oes angen.

- Gwiriwch pa dariffau fydd yn berthnasol i'ch nwyddau ar ôl Brexit, a ph'un a fydd angen i chi dalu tollau tramor ar eich nwyddau.
- I ddod o hyd i'r tariffau a fydd yn berthnasol ar ôl 31 Hydref, ewch i **www.gov.uk/hmrc/brexit-import-duty**
- Os bydd gennych dollau i'w talu, mae'n rhaid i chi wneud cais am gyfrif gohirio tollau cyn i chi fewnforio'ch nwyddau – mae hyn yn caniatáu i chi dalu'r tollau sydd arnoch yn fisol drwy ddebyd uniongyrchol, yn hytrach na chyn gynted ag y bydd y nwyddau'n cyrraedd y DU.

- I wneud cais am gyfrif gohirio tollau, ewch i **www.gov.uk/hmrc/defer-payment-of-duties**

2 Byddwch yn barod i gadw cofnodion tollau o'r holl nwyddau yr ydych yn eu mewnforio o'r dyddiad y mae'r DU yn gadael y UE. Byddwch yn barod hefyd i gyflwyno datganiadau i CThEM yn fisol.

- Gallwch ddewis gohirio cyflwyno datganiadau tan 6 Mai 2020, gan roi mwy o amser i chi ymgyfarwyddo â'r prosesau newydd.
- Os ydych yn dewis gohirio cyflwyno'ch datganiadau tan 6 Mai 2020, caiff eich taliad ar gyfer y tollau sydd arnoch ei gymryd drwy ddebyd uniongyrchol ar 15 Mai 2020.

3 Byddwch yn barod i roi cyfrif am y TAW mewnforio ar eich mewnforion ar eich Ffurflen TAW arferol.

- Mae gwybodaeth am sut i wneud hyn ar gael yn **www.gov.uk/hmrc/accounting-for-import-vat**

4 Gwiriwch a oes angen i chi ddefnyddio'r broses ar gyfer nwyddau o dan reolaeth.

- Rydym wedi eich cofrestru ar gyfer Gweithdrefnau Mewnforio Symlach ar gyfer nwyddau safonol. Os ydych yn symud nwyddau o dan reolaeth, bydd angen i chi gofrestru ar gyfer Gweithdrefnau Mewnforio Symlach ar gyfer y nwyddau hynny.
- I gael rhestr o nwyddau o dan reolaeth ar gyfer Gweithdrefnau Mewnforio Symlach, ewch i **www.gov.uk/hmrc/controlled-goods**
- Bydd angen i chi lenwi ffurflen syml a dewis nwyddau o dan reolaeth - ewch i **www.gov.uk/hmrc/eu-simple-importing**

5 I gael rhagor o wybodaeth am TSP, a'r cofnodion y bydd angen i chi eu cadw, ewch i **www.gov.uk/hmrc/simplified-import-procedures**

## Cadw llygad ar y diweddaraf am Brexit

Gallwch wneud y canlynol:

- cofrestru ar gyfer ein gwasanaeth e-bost, sy'n rhad ac am ddim - ewch i **www.gov.uk/hmrc/business-support** a dewis yr opsiwn ar gyfer e-byst helpu ac addysgu busnesau, ac yna dewiswch 'Brexit'
- defnyddio tudalen GOV.UK ar gyfer masnachwyr - ewch i **www.gov.uk/brexit-traders** a defnyddio'r rhestr wirio i weld a ydych yn barod ar gyfer Brexit

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol ynglŷn â mewnforio ac allforio ar ôl Brexit, gallwch hefyd ffonio'r llinell gymorth traws-Lywodraethol ar gyfer mewnforio ac allforio ar 0300 3301 331.

Yn gywir

**Jim Harra**

Prif Weithredwr Dros Dro, CThEM

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020